# Ysgoloriaethau'r Dr Howell Rees - Cyffredinol

*Darperir yr Ysgoloriaethau hyn (sydd hefyd yn cynnwys Ysgoloriaeth Dr Howell Rees – Meddygaeth) o'r incwm o gymynrodd i Brifysgol Cymru gan y diweddar Howell Rees CBE MRCS LRCP (1847 1933), Caerdydd.*

**Yr Ysgoloriaeth Gyffredinol**

1. Dyfernir "Ysgoloriaeth y Dr Howell Rees", a fydd yn werth £1,000[1] y flwyddyn, gan UWRET ar sail canlyniadau Arholiadau Ysgoloriaeth Fynediad[2] a gynhelir gan neu ar ran Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, a Phrifysgol Abertawe yn eu tro bob yn dair blynedd. Dylid cyfeirio ymholiadau at Gofrestrydd y Sefydliad.[3]
2. Ni chaiff yr Ysgoloriaeth ei dyfarnu oni cheir ymgeisydd teilwng.
3. Bydd ymgeiswyr am yr ysgoloriaeth yn gymwys yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:
   (i) Y rhai hynny a anwyd yng Nghwmaman (yn Sir Gaerfyrddin) neu Frynaman neu Waun-cae-gurwen neu Gwmgors;
   (ii) Y rhai hynny yr oedd eu rhieni yn byw o fewn y ffiniau a ddiffinnir yn (i) ar adeg geni'r ymgeisydd;
   (iii)Y rhai hynny a anwyd yn Sir Gaerfyrddin.
4. Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd am yr ysgoloriaeth ddarparu dwy dystysgrif o'u cymeriad da a bodloni awdurdodau'r Sefydliad Achrededig sy'n argymell y dyfarniad eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
5. Rhaid i bob ymgeisydd fod yn gymwys i fatricwleiddio yn y Brifysgol ac, adeg y dyfarniad, rhaid iddynt fod heb ddechrau ar gynllun astudio ar gyfer gradd ynddi.
6. Bydd yn ofynnol i ddeiliad yr ysgoloriaeth ddilyn cynllun astudio ar gyfer gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, neu Brifysgol Abertawe, yn ôl dewis yr ysgolhaig. Gyda chymeradwyaeth UWRET, caiff yr ysgolhaig drosglwyddo o'r naill i'r llall o'r Sefydliadau hyn tra bydd yn dal yr ysgoloriaeth.
7. Cyhyd ag y caiff UWRET adroddiad boddhaol oddi wrth ei Sefydliad ynghylch ymddygiad a chynnydd yr ysgolhaig ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd, delir yr ysgoloriaeth am dair blynedd.[4]
8. Rhaid i geisiadau am wybodaeth am yr arholiad, ac am gael gwneud yr arholiad, gael eu hanfon at Gofrestrydd y Sefydliad lle cynhelir yr arholiad y mae'r ymgeisydd yn awyddus i'w sefyll.
9. Rhaid i bob ymgeisydd y dyfernir ysgoloriaeth iddynt, o fewn tair wythnos o gyhoeddi canlyniadau'r arholiad, roi gwybod i Gofrestrydd y Sefydliad y mae'n bwriadu mynd iddo, a ydynt yn derbyn yr ysgoloriaeth neu beidio.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.
2. Lle bo'n gymwys
3. Dangosir gwybodaeth am y Sefydliad perthnasol ar y wefan
4. Cymesur ac yn amodol ar y cyllid sydd ar gael